

Cofnodion Cyfarfod llawn Cyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd Dydd Mercher, 26 Mai 2021 am 6.30 o'r gloch ar Zoom (Dechreuodd y cyfarfod am 6.32yh i bawb gael ymuno)

Presennol: Cynghorwyr Rhys Thomas (Cadeirydd), Catherine Jones, Gaynor Wood-Tickle, Roy Tickle, Rob Parkes, Philip Stevens, Dyfrig Berry, Alyn Ashworth, Lara Pritchard, Sylvia Jennings, Carla Hargraves, Ruth Griffiths & Robert Griffiths; Jenny Barlow (Clerc y Dref a Carys Jones (Cynorthwydd Dinesig)

Ymddiheuriadau: Cyng Gaynor Morgan Rees

Arsylwi: Dim

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod cyngor llawn ym mis Mai, croesawodd y Cyng Robert Griffiths a'i longyfarch ar yr etholiad a ffarwelio â Carys gan mai hwn fydd ei chyfarfod olaf.

12 Datganiad Diddordeb Personol: Dim

13 Cadarnhau Cofnodion

Eitem 77 wedi'i diweddarau. Cytunwyd a nodwyd Cofnodion Cyfarfod Llawn y Cyngor a gynhaliwyd ar Ddydd Mercher, 28 Ebrill 2021. (Y Maer i lofnodi unwaith mae cyfarfodydd hwyneb i wyneb yn ail ddechrau)

14 Cadarnhau Cofnodion

Cytunwyd a nodwyd Cofnodion Cyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar Ddydd Gwener, 7 Mai 2021. Gofynnodd y Cyng Gaynor Wood-Tickle am estyniad amser ar gyfer yr elusennau a ddewiswyd llynedd i ddarparu ar gyfer digwyddiad codi arian ar ddechrau mis Mehefin. Cytunwyd ar hyn gan y Cyng Rhys Thomas (Y Maer i lofnodi unwaith mae cyfarfodydd hwyneb i wyneb yn ail ddechrau)

15 Materion yn codi:

15.1 Eitem 32 - Diweddariad ardal cerdded cŵn - Mae CSDd wedi cynghori bod fformat newydd i gadw ato ar gyfer prosiectau a bydd Clerc y Dref yn dechrau'r broses. Bydd y symiau cymunedig yn cael eu cadw tan fis Hydref felly mae angen gweithredu. Bydd angen i ni ymgysylltu rhywfaint â'r gymuned; trafodir hyn mewn cyfarfod diweddarach.

15.2 Eitem 72.5 - Diweddariad gan Gyng Alyn Ashworth ynghylch twristiaeth ar ôl Covid - Gohiriwyd tan gyfarfod mis Mehefin.

15.3 Eitem 72.8 - Cyng Dyfrig Berry ynglŷn â'r Wefan - Pleidleisiodd a chytunodd y Cynghorwyr Tref i ddilyn protocol a'r cyngor a'r arweiniad a roddwyd gan y Cyngor Sir ac Un Llais Cymru.

15.4 Eitem 73.8 - Diweddariad Archwilio Mewnol. (Mehefin 2021) Dosbarthwyd Archwiliad Mewnol 6 mis a bydd yr holl gamau gweithredu perthnasol yn cael eu cwblhau cyn bo hir - mae 2 ddogfen newydd yn cael eu cynhyrchu. Dywedodd Clerc y Dref y bydd yr Archwiliad Diwedd Blwyddyn yn cael ei roi i mewn 03.06.21.

16 Gohebiaeth a dderbyniwyd

16.1 Cylchlythyr Diwygio Etholiadol Ebrill 2021 - Nodwyd hyn

16.2 Derbyniwyd llythyr gan A Bowcott ynghylch Gwasanaeth Bws Flecsi yn Ninbych - Trafodwyd hyn a dywedodd Clerc y Dref ei bod wedi siarad â Peter Daniels o Gyngor Sir Ddinbych a gynghorodd fod Trafnidiaeth i Gymru yn edrych ar welliannau i gynnwys gallu archebu'r siwrnai yn ôl ar yr alwad ffôn gyntaf. Gofynnodd y Cynghorwyr Tref i Glerc y Dref ofyn am gael ei ddiweddarau. Gofynnodd y Cynghorwyr Tref hefyd i'r rhif ffôn a ddefnyddir i archebu'r gwasanaeth fod am ddim i bob defnyddiwr.

16.3 Diwrnod Ail-lenwi'r Byd - Arwr Ail-lenwi - Nodwyd hyn

16.4 Adran 47 - cyfarfodydd - Unwaith y bydd cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn ailddechrau, bydd angen iddynt fod ar gael trwy ddulliau electronig yn ogystal ag wyneb yn wyneb - hygyrchedd i bawb. Bydd Clerc y Dref yn ymchwilio i hyn yn fwy manwl ac adborth yn y cyfarfod nesaf ynghyd ag unrhyw oblygiadau cost.

16.5 Diwrnod Gweithwyr Rheng Flaen y GIG a Gofal Cymdeithasol 05.07.2021 - Bydd Clerc y Dref yn cysylltu ag Eglwys y Santes Fair ynglŷn â hyn, yn archebu baner a rhoddir nodyn ar y wefan.

Gadawodd y Cyng Alyn Ashworth y cyfarfod am 7.25yh yn dilyn problemau TG.

16.6 Llythyr oddi wrth Harriers Dinbych - Trafodwyd a nodwyd hyn, bydd Clerc y Dref yn anfon ateb yn cynghori bod y Cynghorwyr yn deall eu bod yn negodi ffi flynyddol ar hyn o bryd.

16.7 Credydau Amser Tempo - Nodwyd hyn

16.8 E-bost gan Sue Muse ynghylch Gwefan Dinbych - Bydd Clerc y Dref yn anfon e-bost pellach at y Grŵp Busnes i gael diweddariad ynghylch talu a chynnal a chadw'r wefan yn y dyfodol yn ogystal â diweddarau Sue.

17 Cyllid

17.1 Adroddiadau Cyllid - Ni chyhoeddwyd unrhyw adroddiadau oherwydd Diwedd y Flwyddyn; cyhoeddir y rhain mis nesaf.

17.2 Rhestr o daliadau a wnaed ym mis Ebrill - Cytunwyd a nodwyd y canlynol.

Jones & Graham - Cyflog Ebrill (Rhif siec 007362)	£2556.74
Jones & Graham -HMRC Ebrill (Rhif siec 007363)	£688.14
Jones & Graham - Pensiwn Ebrill (Rhif siec 007364)	£793.50
D Cawthray - Batteri diogell (Rhif siec 007366)	£65.00
J Barlow, Ad daliad Batteri (Rhif siec 007367)	£16.49
ASL - Llungopïau Mawrth (Rhif siec 007368)	£13.54
J Barlow, Ad daliad Zoom Ebrill (Rhif siec 007369)	£14.39
Catalyst, Band eang Ebrill (Rhif siec 007370)	£38.00
P Liversidge, Glanhau yn Dr E.P. Garden (Rhif siec 007371)	£55.00
Catalyst, cynnal a chadw blynyddol 2021/2022 (Rhif siec 007372)	£420.00
Grenke, prydles llungopiwr Ebrill - Mehefin (Rhif siec 007373)	£189.86
ULIC Hyfforddiant R Griffiths (Rhif siec 007374)	£30.00
MAC3, cynnal e-bost 2021/22 (Rhif siec 007375)	£36.00
EON, Taliad blynyddol CCTV Vaults	£91.54

(Rhif siec 007376) Catalyst, Wrth gefn Mawrth	£5.08
(Rhif siec 007377) Jones & Graham, gweinyddiaeth gyflog Ion - Mawrth	£87.60
(Rhif siec 007378) Catalyst, Teleffoni Mawrth	£58.78
(Rhif siec 007379)	
Cyfanswm	£5159.66

17.3 Rhestr o dderbynebau ym mis Ebrill - Cytunwyd a nodwyd y canlynol.

29.04.2021 CSDd derbynneb presept cyntaf	£76,648.00
30.04.2021 Llog Credyd	£1.45

Cyfanswm **£76,649.45**

17.4 Cais am Gymorth

- 17.4.1 Mencap, S137 £200.00
(Rhif siec 007399)
- 17.4.2 Tŷ Gobaith, S137 £2,000.00
(Rhif siec 007400)

Gadawodd y Cyng Lara Pritchard y cyfarfod am 7.46yh.

17.5 S137 adroddiad ar ôl 6 mis - Cytunwyd a nodwyd y canlynol.

- 17.5.1 Grŵp Digwyddiadau Dinbych
- 17.5.2 Amgueddfa Dinbych

17.6 Cadarnhad o'r taliad a dderbyniwyd - Cytunwyd a nodwyd y canlynol.

- 17.6.1 Dinbych yn Blodeuo
- 17.6.2 Clwb Criced Dinbych

18 Cynllunio:

18.1 01/2021/0326

Cilgoed, St David's Lane, Dinbych
Tocio coeden Masarn yn Ardal Gadwraeth Dinbych

Hoffai'r cynghorwyr tref nodi eu bod yn anhapus â difrifoldeb y gostyngiad.

.....

18.2 01/2021/0445

Tŷ Glyndŵr, 108b Stryd y Dyffryn, Dinbych
Codi ystafell ardd ategol ar wahân a gwaith cysylltiedig

Dim gwrthwynebiad

.....

18.3 01/2021/044

The Courts, Stryd y Parc, Dinbych
Cwmpo 2 conwydd o fewn Ardal Gadwraeth Dinbych

Hoffai cynghorwyr y dref nodi eu bod yn anhapus gyda'r cais i gwmpo'r ddwy goeden iach.

.....

Gofynnodd cynghorwyr y dref i Glerc y Dref gysylltu â'r Adran Gynllunio yn CSDd - Maent yn bryderus iawn gyda maint y coed sy'n cael eu lleihau neu eu tynnu yn ardal gadwraeth Dinbych. Bydd Clerc y Dref yn cysylltu ynghylch y broses gyfredol.

19 Tâl - Lwfans Maer / Dirprwy Faer 2021/22 a lwfans £ 500.

Penderfynwyd bod lwfans y Maer wedi'i osod ar £1,300 a lwfans y Dirprwy Faer yn £300.00. Gwnaed y penderfyniad i'r symiau fod yn Pro-rata oherwydd y sefyllfa bresennol a bydd y symiau'n cael eu trafod mewn cyfarfod diweddarach.

Enwebwyd y Cyng Berry i dderbyn y lwfans o £500.00 am y gwaith y mae wedi'i wneud ac mae'n parhau i'w wneud ar y wefan a TG. Dim enwebiadau eraill.

20 Tân Gwyllt - Dywedodd Clerc y Dref fod Emma o Uproar yn hapus i aros tan 1af o Fedi i gael penderfyniad ond bydd hyn yn cael ei drafod yng nghyfarfod mis Gorffennaf fel y gellir gwneud penderfyniad. Roedd Dave Phillips o Safety Focus wedi cynghori y byddai angen tocynnau a manylion pawb mewn unrhyw ddigwyddiadau.

21 Diweddariad y Maer - Dywedodd y Maer ei fod wedi ceisio ymuno â CCB y Rhyl ond bod ganddo broblemau TG gyda'r nos. Dim digwyddiadau eraill.

22 Adroddiadau gan Gynghorwyr Sir yn ymwneud YN UNIG â Dinbych - Dim

Gadawodd y Cyng Carla Hargraves y cyfarfod am 8.44yh.

23 Penodiad ar Grwpiau a Chymdeithasau - Diwygiwyd y rhestr a gofynnodd clerch y dref i gysylltu â'r grŵp perthnasol gyda'r manylion diweddaraf. Bydd manylion yn cael eu harddangos ar y wefan.

24 Aelodaeth Pwyllgorau - Diwygiwyd y rhestr. Bydd manylion yn cael eu harddangos ar y wefan.

25 Diweddariad yswiriant - Mae Clerc y Dref yn y broses o chwilio am ddiogell newydd ac yn cysylltu â Zurich ac am adborth yng nghyfarfod mis Mehefin.

26 HM Stanley - adborth gan y gweithgor ynghylch holiadur a dyddiad ymgynghori arfaethedig - Mae'r Grŵp yn bwriadu cynnal Ymgynghoriad Cyhoeddus dros 3 diwrnod 29-31 Gorffennaf. Paratowyd holiaduron a chânt eu dosbarthu mewn rhai lleoliadau (i'w gadarnhau) Gwneir posteri i gynghori'r Cyhoedd yn gyffredinol o'r holl opsiynau sydd ar gael. Gofynnodd y Cyng Catherine

Jones a oedd unrhyw Gynghorwyr Tref a hoffai ymuno â'r grŵp, gwirfoddolodd y Cyng Gaynor Wood-Tickle a chytunodd y Cynghorwyr Tref.

Gofynnodd y Cyng Philip Stevens i'r Cyhoedd gael eu gwneud yn ymwybodol o oblygiadau cost symud y cerflun.

27 Gardd Dr E.P. - Diweddariad ffynhonnau. Mae gan Glerc y Dref gyfarfod wedi'i gynllunio gyda'r Dŵr Cymru, Peiriannydd Sifil, Trydanwr a CSDd yn ystod yr wythnosau nesaf a byddai yn rhoi adborth yng nghyfarfod mis Mehefin.

Caeodd y cadeirydd y cyfarfod am 9.18yh

Arwyddwyd:.....(cadeirydd)

Dyddiad:.....